



Gwaith cartref dros hanner tymor: Gwerthoedd yr ysgol

Annwyl Riant / Warchodwr,

Rydym wedi bod yn edrych ar raglen werthoedd yn yr ysgol ers sawl blwyddyn bellach ac, yn ogystal â hyn, rydym wedi edrych ar y gwerthoedd sy'n ein gwneud yn ddinasyddion da yn ein sesiwn les bythefnos yn ôl. Ein gobaith yw i ddewis **chwe gwerth** fydd yn gosod seiliau i'n hysgol ni yn y dyfodol. Bydd y chwe gwerth hyn yn weledol dros yr ysgol a dyma fydd rheolau'r ysgol yn ogystal. Bob blwyddyn, byddwn yn edrych yn fanwl ar un o'r gwerthoedd hyn bob hanner tymor.

Fel soniwyd yn y llythyr lles diwethaf, mae'r Athro Graham Donaldson wedi cynnal arolwg o'r cwricwlwm yma yng Nghymru ac mae wedi argymhell gwelliannau. Mae'n pwysleisio'r angen i'r disgyblion fod yn: **ddysgwyr uchelgeisiol, galluog / yn gyfranwyr mentrus, creadigol / yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus / yn unigolion iach, hyderus.**

Dros hanner tymor, hoffwn gael barn a syniadau'r disgyblion a chi fel rhieni / gwarchodwyr, ar y chwe gwerth y dylai fod yn sail i'n hysgol ni. Pa chwe gwerth fydd yn sicrhau ein bod ni'n ddinasyddion da, llwyddiannus? Gall y gwerthoedd hyn fod yn bethau fel parch, hapusrwydd, dyfalbarhad, cyfeillgarwch, tegwch, creadigrwydd ayyb. Ysgrifennwch y chwe gwerth yn yr enfys trosodd a bydd aelodau'r Cyngor Ysgol yn trafod y syniadau ac yn dewis y chwe gwerth ar y cyd gyda'r staff a'r Llywodraethwyr.

Edrychwn ymlaen at weld syniadau'r disgyblion.

Homework over half term: School Values

Dear Parent / Guardian,

We've been looking at a values programme in the school for many years now and, in addition to this, we looked at the values that make us good citizens in our well-being session a fortnight ago. Our aim now is to choose **six values** which will set the foundations to our school in the future. These six values will be on show across the school and these will also act as our school rules. Every year, we'll be looking closely at one of these values every half term.

As was noted in the last well-being letter, Professor Graham Donaldson has reviewed the curriculum here in Wales and has offered actions for improvement. He's emphasised the need for the pupils to be: **ambitious, capable learners/ enterprising, creative contributors / ethical, informed citizens / healthy, confident individuals.**

Over half term, we would like to get the pupils' ideas and your ideas as parents / guardians, as to what the six values should be. Which six values will ensure that we are good, successful citizens? These values could be things like respect, happiness, perseverance, friendship, fairness, creativeness etc. Once you've decided on your six values, write them on the rainbow overleaf. The School Council members will be discussing the pupils' ideas and, working with staff and Governors, they will be choosing six values which will lay the foundations to our school.

We look forward to hearing the pupils' ideas.

Diolch / Thank you, Miss Passmore